

## YMWELIADAU SAFLE CYNLLUNIO

### Cofnodion y cyfarfod Rhithwir a gynhaliwyd ar 18 Mawrth, 2022

<b>YN BRESENNOL:</b>	Y Cynghorwyr John Griffith, Glyn Haynes, T LI Hughes MBE, Dafydd Roberts,
<b>WRTH LAW:</b>	Rheolwr Datblygu Cynllunio (RLIJ), Uwch Swyddog Cynllunio (SH), Swyddog Pwyllgor (MEH).
<b>YMDDIHEURIADAU:</b>	Y Cynghorwyr K P Hughes, Vaughan Hughes, Eric Jones, Nicola Roberts, Ieuan Williams, Robin Williams.
<b>HEFYD YN BRESENNOL:</b>	Dim

---

Yn absenoldeb Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, etholwyd y Cynghorydd Dafydd Roberts yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig.

- 1. FPL/2021/316 – Cais llawn ar gyfer newid defnydd ac adnewyddu dau adeilad amaethyddol yn olchdy masnachol ynghyd â gwella'r fynedfa ym Mryn Glas, Llanrhuddlad**

Dangoswyd fideo o safle'r cais i aelodau ynghyd â'r fynedfa a'r llain welededd i ac o'r rhwydwaith priffyrdd lleol.

**Y CYNGHORYDD DAFYDD ROBERTS  
CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD HWN YN UNIG**